Andrew Slade

Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Llywodraeth Cymru

13 Hydref 2020

Annwyl Andrew,

Caffael Cyhoeddus

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 14 Medi pan wnaethom ddychwelyd at ein hymchwiliad hirsefydlog ar gaffael cyhoeddus. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn sesiwn addysgiadol iawn.

Fe wnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o fanylion neu i wirio'r canlynol:

- Sylwebaeth ar faterion yn ymwneud â chyflenwi ffrwythau a llysiau a phryderon ynghylch prinder posibl, a'r angen i ysgogi cynhyrchu ar lefel leol.
- Cronoleg o ran datblygiad y trafodaethau â'r darparwr yr ystyriwyd ei fod yn darparu cefnogaeth genedlaethol i'r rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. A wnewch hefyd gynnwys crynodeb o gwmpas arfaethedig y contract, a throsolwg o sut y defnyddiwyd y broses diwydrwydd dyladwy. Fel rhan o hyn, a allwch gadarnhau pa mor hwyr yn y broses ydoedd pan nodwyd y pryderon ynghylch darpariaeth y cyflenwr yn Lloegr, a phryd y gwnaeth y cyflenwr dynnu sylw Llywodraeth Cymru at y ffaith efallai na fyddai yn gallu darparu gwasanaeth ledled Cymru o'r diwrnod cyntaf. A wnewch chi gadarnhau a oedd pryderon am Gymorth Gwaith Cymru wedi'u nodi'n rhagweithiol neu a oeddent, yn syml, wedi codi fel mater o drefn? Fel yr holodd yr Aelodau, a oedd unrhyw bosibilrwydd y gellid bod wedi llofnodi'r contract heb i'r materion hyn ddod i'r amlwg?
- Gwybodaeth am sut rydych yn ymdrin â'r estyniad i gontractau cymorth cyflogadwyedd yng ngoleuni caffaeliadau Cymorth Gwaith Cymru sydd wedi methu. Fel rhan o hyn, byddem yn croesawu cael gwybodaeth ychwanegol am eich cynlluniau nawr ar gyfer trefniadau olynol ar gyfer gwahanol garfannau (gan

gynnwys yr amserlenni dan sylw).

Fe wnaethoch ymrwymo yn y cyfarfod hefyd i rannu canfyddiadau'r adolygiad o gaffael a ganslwyd ar gyfer Cymorth Gwaith Cymru. Gwnaethoch nodi yn ystod y cyfarfod eich bod yn gobeithio, maes o law, allu cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad yn llawn ac os na allech, y byddech yn ystyried ffyrdd i rannu'r canfyddiadau hyn â ni. Nodwn hefyd Ddatganiad Ysgrifennydd Gweinidog yr Ysgrifennydd y Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 8 Hydref 2020 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad. Rydym yn falch bod yr adolygiad wedi gwneud nife o arg ymhellion i gryfhau prosesau mewnol ac mae swyddogion yn awr yn bwrw ymlaen â'r rhain.

Byddem, wrth gwrs, yn dal yn falch o weld yr adroddiad ac os na fydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi erbyn diwedd 2020 am y rhesymau a amlinellwyd gennych yn y cyfarfod, yna bydd tîm clercio'r Pwyllgor mewn cysylltiad â chi i drafod sut y gallai gael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor fel arall.

Cododd Aelodau bryderon ychwanegol hefyd wrth i ni ystyried y dystiolaeth y byddwn yn croesawu cael eich barn arni. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

- Mae gennym amheuon ynghylch lefel yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector preifat wrth gaffael cyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig. Mae gennym ddiddordeb yn yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu cadwyni cyflenwi, ac i ymateb i gynigion o gymorth gan y sector preifat, ond gan gymhwyso diwydrwydd dyladwy priodol i ddarpar gyflenwyr ar yr un pryd. Rydym, fodd bynnag, yn cydnabod bod Archwilio Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith ar hyn o bryd o ran y cyflenwad cyfarpar diogelu personol gyda'r bwriad o ddarparu sylwebaeth gychwynnol inni yn y dyfodol agos, ac felly byddwn yn aros am ganfyddiadau'r gwaith hwn, cyn gofyn am ragor o wybodaeth gennych chi.
- Gofynnwn am ragor o wybodaeth am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau gwytnwch ac effeithiolrwydd trefniadau awdurdodau lleol rhanbarthol mewn perthynas â chaffael a ddisgrifiwyd gennych yn ystod y cyfarfod. Rydym yn arbennig o bryderus am yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol llai na fydd efallai â'r gallu i reoli gweithgarwch caffael mwy cymhleth, a byddem yn croesawu eglurder ar sut / a fydd y trefniadau rhanbarthol yn darparu cefnogaeth y tu hwnt i reoli fframweithiau penodol.

Yn olaf, er ein bod yn cydnabod effaith ddiweddar y pandemig Covid-19, mae'n ymddangos bod peth o'r gwaith a gynlluniwyd ar gaffael yn cymryd rhagor o amser na'r disgwyl ymlaen llaw. Gwnaethoch nodi bod cyfle i'r datganiad polisi caffael newydd

adlewyrchu'r amgylchedd allanol yr ydym bellach yn rhan ohono ac i ddatblygu rhai o'r materion a godwyd yn adroddiad diweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniad eich ymgynghoriad, a hoffem ofyn a fydd modd iddo gael ei rannu â'r Pwyllgor.

Yn y cyfamser, ac o ystyried rhywfaint o dystiolaeth flaenorol, byddem yn croesawu cael eglurhad ynghylch a fydd cyhoeddi'r datganiad polisi yn ymdrin ag ymrwymiadau blaenorol ynghylch strategaeth gaffael newydd a strategaeth gaffael ddigidol, neu a oes gwaith ar y gweill o hyd i gynhyrchu dogfennau unigol i'r perwyl hwnnw. Os felly, yna erbyn pryd ac, os nad oes, byddem yn croesawu cael eglurhad o ran pam na fydd angen y dogfennau strategaeth hyn mwyach.

Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor ar fin cychwyn ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac rwy'n rhagweld y byddwn yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â chaffael rel rhan o'r gwaith hwn.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

Nick Ramsay AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh